



**GWASANAETH TÂN AC ACHUB DE CYMRU  
Y PENCADLYS, PARC BUSNES FOREST VIEW, LLANTRISANT**

**CYFARWYDDIAETH GWASANAETHAU CORFFORAETHOL**

**RHEOLWR STRATEGAETH EIDDO  
ADRAN GYLLID, CAFFAEL AC EIDDO**

**37 AWR YR WYTHNOS  
CYFEIRNOD: NU429**

**GRADD 18**

**CYFLOG: £45,859 - £46,845 y flwyddyn**  
(yn amodol ar werthusiad swydd)

Mae cyfle cyffrous wedi codi i benodi Rheolwr Strategaeth Eiddo parhaol o fewn yr Adran Gyllid, Caffael ac Eiddo, a leolir ym Mhencadlys y Gwasanaeth Tân ac Achub.

Bydd yr ymgeisydd llwyddiannus yn meddu ar wybodaeth am fasnach a gradd mewn maes sy'n ymwneud ag eiddo, yn ogystal â phrofiad ôl-gymhwyster sylweddol a enillwyd, yn ddelfrydol, yn y sectorau cyhoeddus a phreifat ill.

Bydd prif ddyletswyddau'r swydd yn cynnwys:

- Cyfrifoldeb dros reoli ystad yr Awdurdod sy'n cynnwys 49 o adeiladau
- Gweithio'n uniongyrchol gyda rheolwyr strategol i oleuo cynllunio strategol
- Ymgymryd â phrif brosiectau o'r cychwyn i'r cam comisiynu
- Rheoli tîm bach yn delio â phrif brosiectau, ailwampio rheoli cyfleusterau a chynnal a chadw bob dydd.

Bydd y swydd heriol hon yn gofyn bod yr ymgeisydd llwyddiannus yn cydweithio â phersonél Gwasanaethau Tân ac Achub eraill ac felly mae'r gallu i deithio'n hanfodol.

**Y dyddiad cau ar gyfer derbyn ceisiadau yw 12:00 hanner dydd, dydd Llun 3 Mai, 2021: Cynhelir cyfweiliadau wythnos yn dechrau 17 Mai 2021.**

Bydd angen i ymgeiswyr feddu ar y cymwysterau a'r profiad a ammlinellir yn y Fanyleb Person.

Gellir lawr lwytho pecyn cais gan gynnwys Manyleb y Person a'r Swydd-ddisgrifiad o Adran Swyddi Cyfredol gwefan Gwasanaeth Tân & Achub De Cymru [www.decymru-tan.gov.uk](http://www.decymru-tan.gov.uk).

Dylid danfon Ffurflenni Cais gorffenedig at: Y Tîm Recriwtio ac Asesu, Pencadlys Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru, Parc Busnes Forest View, Llantrisant CF72 8LX.

D.S. A fydddech cystal â nodi teitl y swydd yr ydych yn ymgeisio ar ei chyfer yn glir ar eich Ffurflen Gais

Mae GTADC yn credu fod gwir werth mewn cael gweithlu amrywiol ac rydym am fod yn rhagweithiol wrth annog ymgeiswyr o bob sector o'n cymuned i ymgeisio.

